OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 235

## Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019

## RHAN 7

### DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG (BENTHYCIADAU AT RADD DDOETHUROL ÔL-RADDEDIG) (CYMRU) 2018

**Diwygiadau i reoliad 2**

**62.** Yn rheoliad 2 (dehongli), ym mharagraff (1) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"ystyr "darparwr cynllun Seisnig" ("*English plan provider*") yw sefydliad Seisnig cofrestredig sydd â chynllun mynediad a chyfranogiad a gymeradwywyd gan y Swyddfa Fyfyrwyr o dan adran 29 o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 ac sy'n parhau mewn grym;";

"ystyr "person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67" ("*person with section 67 leave to remain*") yw person—

(a) y mae ganddo ganiatâd cyfredol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016 ac yn unol â'r rheolau mewnfudo; a

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i'r caniatâd hwnnw gael ei roi i'r person;";

"ystyr "sefydliad a gyllidir gan yr Alban" ("*Scottish funded institution*") yw sefydliad a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau rheolaidd o gronfeydd a ddarperir gan Weinidogion yr Alban;";

"ystyr "sefydliad a gyllidir gan Gymru" ("*Welsh funded institution*") yw sefydliad a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau rheolaidd o gronfeydd a ddarperir gan Weinidogion Cymru;";

"ystyr "sefydliad a gyllidir gan Ogledd Iwerddon" ("*Northern Irish funded institution*") yw sefydliad a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau rheolaidd o gronfeydd a ddarperir gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon;";

"ystyr "sefydliad rheoleiddiedig Seisnig" ("*English regulated institution*") yw sefydliad Seisnig cofrestredig sy'n ddarostyngedig i amod terfyn ffioedd o dan adran 10 o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017;"; ac

"ystyr "sefydliad Seisnig cofrestredig" ("*registered English institution*") yw sefydliad sydd wedi ei gofrestru gan y Swyddfa Fyfyrwyr yn y gofrestr;".